

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R  
A458 (CROESFAN REILFFORDD MOAT LANE,  
CAERSŴS A CHROESFAN REILFFORDD TAL-  
Y-BONT, TAL-Y-BONT, POWYS) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, wrth groesfan reilffordd Moat Lane, Caersŵs, a chefnffordd yr A458 wrth groesfan reilffordd Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau a ganlyn o'r cefnffyrdd:

i. y darn o'r A470 sy'n ymestyn am bellter o 20 metr y naill ochr a'r llall i groesfan reilffordd Moat Lane.

Pan fydd y ffordd ar gau dros y penwythnos (22:00 o'r gloch nos Sadwrn - 09:00 o'r gloch ddydd Sul a 22:00 o'r gloch nos Sul - 06:00 o'r gloch ddydd Llun) y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r de yw mynd ar yr A470 tua'r gogledd-orllewin i Gaersŵs, y B4569 tua'r gorllewin/de i Llanidloes a'r B4518 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A470 tua'r de/gogledd: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Ar bob adeg arall, y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r de yw mynd ar yr A489 tua'r dwyrain i'r Drenewydd, yr A483 tua'r de i'r Groes a'r A44 tua'r gorllewin i Raeadr Gwy er mwyn ailymuno â'r A470 tua'r de/gogledd: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

ii. y darn o'r A458 sy'n ymestyn am bellter o 20 metr y naill ochr a'r llall i groesfan reilffordd Tal-y-bont.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar y B4388 tua'r de, y B4381 Leighton Road tua'r gorllewin, yr A483 tua'r gogledd a'r A458 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 20 Medi 2024. Disgwylir i'r gwaharddiad dros dro weithredu'n ysbeidiol o 20 Medi 2024 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad yn cael ei arddangos pob tro cyn cau'r ffordd yn ystod y cyfnod hwn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**THE A470 & A458 TRUNK ROADS (MOAT  
LANE LEVEL CROSSING, CAERSWS AND  
BUTTINGTON LEVEL CROSSING,  
BUTTINGTON, POWYS) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Moat Lane level crossing, Caersws and the A458 trunk road at Buttington level crossing, Buttington, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the following lengths of the trunk roads:

i. the length of the A470 that extends for 20 metres either side of Moat Lane level crossing.

During weekend closures (22:00 hours Saturday – 09:00 hours Sunday and 22:00 hours Sunday – 06:00 hours Monday) the alternative route for southbound traffic is via the north-westbound A470 to Caersws, west/southbound B4569 to Llanidloes and eastbound B4518 to rejoin the south/northbound A470: vice versa for northbound traffic.

At all other times, the alternative route for southbound traffic is via the eastbound A489 to Newtown, southbound A483 to Crossgates and westbound A44 to Rhayader to rejoin the south/northbound A470: vice versa for northbound traffic.

ii. the length of the A458 that extends for 20 metres either side of Buttington level crossing.

The alternative route for westbound vehicles is via the southbound B4388, westbound B4381 Leighton Road, northbound A483 and eastbound A458: vice versa for eastbound vehicles.

The Order comes into force on 20 September 2024. The temporary prohibition is expected to operate intermittently from 20 September 2024 for a maximum duration of 18 months. Notice of all closures during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be  
obtained from Orders Branch, Transport,  
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff  
CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government